Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Adloniant, 23/03/21 – Cyfarfod Rhithiol

Yn bresennol: Y Cynghorwyr W.L.Davies, E.R.Hughes (Cadeirydd), A.Hopcyn, D.L.Jones, K.Jones, E.Lovgreen, M.Sarnacki, R.Thomas

---

1.Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd K.Richards

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim

4. Blodau ar y Maes

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar yr uchod.

Nododd y Clerc:

(1) Bod y Pwyllgor Adloniant wedi trafod y blodau ar y Maes yn ei gyfarfod ar y 22ain o Chwefror, 2021, fel a ganlyn:

"**6. Blodau ar y Maes**

Cafwyd trafodaeth ar yr uchod, gan ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys y defnydd o wirfoddolwyr.

Nodwyd y byddai blodau fel Trailing Begonias yn ddelfrydol.

Penderfynwyd:

(1) Creu dyddiadur o ran beth fydd angen digwydd pa bryd o ran plannu blodau ar y Maes.

(2) Gofyn am gwot gan gwmnïau fyddai'n gallu plannu blodau yn y planters ar y Maes, a hefyd gofalu amdanyn nhw yn wedyn (dyfrio a bwydo).

(3) Gofyn i'r Clerc holi Cynghorau Tref gyfagos, fel Biwmares, pwy oedd yn gyfrifol am eu blodau hwy."

(2) Mai adroddiad cynnydd yw hwn.

(3) Erbyn hyn bod dyddiadur wedi'i brynu a fydd yn cael ei boblogi ynghylch yr hyn sy'n digwydd wrth blannu blodau ar y Maes.

(4) Ei fod wedi gwirio gyda Chynghorau Tref cyfagos pwy oedd yn gyfrifol am ddarparu a chynnal eu blodau, a bod yr ymatebion canlynol wedi dod i law:

Cyngor	Ymateb
Beaumaris	Mae rhai o'r potiau blodau yn cael eu gwneud gan gwmni yn y dref, sef Castle Gardens, a rhai eraill gan y cartref Haulfre yn Llangoed. Mae'r basgedi blodau yn dod o gwmni o Loegr sef Plantscape. Hefyd mae yna griw o wirfoddolwyr sydd yn weithgar iawn.
Conwy	Mae'r blodau'n cael eu cynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
Dinbych	Mae gan Gyngor Tref Dinbych flodau balconi sy'n cael eu prynu trwy ganolfan arddio leol. Gaynor, goruchwyliwr Neuadd y Dref, sy'n gofalu amdanyn nhw. Yn y dref ei hun, mae grŵp “Denbigh in Bloom” sy'n llwyddiannus iawn. Fe wnaethant ennill gwobr Aur yn 2019, nid oedd 2020 yn llwyddiant yn amlwg ond maent yn anelu'n uchel ar gyfer 2021. Mae'r cyngor tref yn cefnogi'r grŵp yn ariannol gyda chymorth grant Adran 137 pan fyddant yn gwneud cais. Mae rhai o'r cynghorwyr tref hefyd yn aelodau gweithgar o'r grŵp.

Penderfynwyd defnyddio'r wybodaeth yn y tabl uchod i ofyn am ddyfynbris gan gwmnïau a allai blannu blodau yn y planwyr ar Y Maes, a hefyd i ofalu amdanynt (bwydo a dyfrio) (gofynnir i'r un cwmni ddyfarnu'r Gystadleuaeth Garddio).

5. Cystadleuaeth Garddio

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar yr uchod.

Nododd y Clerc:

(1) Bod y Pwyllgor Adloniant wedi trafod y Gystadleuaeth Garddio yn ei gyfarfod ar Chwefror 22ain 2021 ac wedi penderfynu fel a ganlyn:

"7.Cystadleuaeth Garddio
Penderfynwyd:

(1) Argymell y dylai'r gystadleuaeth gymryd lle ddiwedd Mehefin / dechrau Gorffennaf, ond y dylid holi Mr Alun Roberts o ran pa amser yn y flwyddyn fyddai'n ddelfrydol o ran gweld y blodau ar eu gorau.

(2) Gofyn i'r Clerc gyflwyno papur gerbron y pwyllgor hwn yn ei gyfarfod nesaf, yn amlinellu'r opsiynau o ran y cwpanau ac yn y blaen.
(3) Gofyn i'r Clerc drafod efo ysgolion pa mor ymarferol fyddai i ysgolion gymryd rhan eleni yng nghanol Covid-19.
(4) Gofyn i'r Cwmni fyddai wedi ennill y contract o ran y blodau ar y Maes i feirniadu'r Gystadleuaeth Gerddi hefyd."

(2) Mai adroddiad cynnydd yw hwn.
(3) O ran amseriad y gystadleuaeth er mwyn gweld y blodau ar eu gorau, ei fod wedi holi Mr Alun Roberts. Dywedodd fod mis Awst yn rhy hwyr a bod mis Mehefin yn rhy fuan. Argymhellodd yr wythnos sy'n cychwyn naill ai'r 19eg neu'r 26ain o Orffennaf.
(4) Bod cyfarfod wedi'i gynnal rhwng y Cynghorwyr Eiriona Hughes, Maria Sarnacki a'r Clerc, a cyflwynwyd yr opsiynau i'r cyfarfod.
(5) Bod y Clerc wedi cysylltu â'r ysgolion a bod rhai ymatebion wedi dod i law.

Penderfynwyd:

(1) Argymell i'r Cyngor Llawn bod y Gystadleuaeth Garddio yn digwydd ar yr wythnos yn dechrau'r 19eg o Orffennaf.
(2) Dylid gohirio'r gystadleuaeth i ysgolion tan 2022 oherwydd Covid-19.
(3) Derbyn yr opsiynau yn y pwyntiau bwled canlynol er mwyn darparu argymhellion i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 6ed o Ebrill:

- **Cadw'r 4 ward fel y maent, a chadw'r Cwpan Pensiynwr hefyd.**
- **Newid y categori ar gyfer cwpan Her Frongoch a'r Cwpan Her gan eu bod yn debyg iawn, ac mae'r ddau ar gyfer enillwyr cyffredinol.**
- **Ar gyfer 2022, un opsiwn fyddai defnyddio'r Cwpan Her fel yr un ar gyfer yr ysgolion, a'i alw'n Gwpan Her yr Ysgol, a Chwpan Frongoch ar gyfer yr ardd gorau gan aelod o'r cyhoedd.**
- **Bod y Lawnt Orau i aros yr un peth.**
- **Ail-enwi'r Ardd Fach Orau (Cwpan Trefor Jones) fel gofod bach (gardd neu iard)**
- **Basgedi crog a thybiau gorau.**
- **Basgedi / gardd fasnachol orau i gynnwys Gwely a Brecwast efallai hefyd ystyried creu cystadleuaeth gardd gefn?**
- **Anelu at gael y datganiad i'r wasg allan ar gyfer mis Ebrill, a cheisiadau allan yr un amser. Ystyried gofyn i gyn-enillwyr roi dyfyniad bach i helpu i hyrwyddo'r gystadleuaeth.**
- **Ystyried Categori "Canmoliaeth Uchel".**

(4) Y dylid creu “flyer”, efo’r holl fanylion am y Gystadleuaeth Garddio, gyda dyddiad cau, a gofyn am wirfoddolwyr i fynd â nhw o amgylch yr holl dai yn y dref.

6. Tendr Goleuadau Nadolig

Nodwyd y bydd y gwaith papur ar gyfer y tendr Goleuadau Nadolig yn cael ei gyflwyno i’r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 6ed o Ebrill. Roedd sylwadau’r Pwyllgor Adloniant, yn ei gyfarfodydd yn Ionawr a Chwefror, wedi cael eu hymgorffori.

Nodwyd y dylid sicrhau y byddai lorïau efo digon o uchder i basio os oedd goleuadau yn cael eu rhoi ger Cameos ac uwchlaw.

Penderfynwyd nodi’r uchod.

Gorffennodd y cyfarfod am 6.20 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____